## P-03-295 Gwasanaethau Niwroadsefydlu Paediatrig

## Geiriad y ddeiseb

> Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gydnabod ac i ddarparu gwasanaethau ar gyfer adsefydlu plant sydd wedi cael anafiadau i'r ymennydd. Ar hyn o bryd, nid oes cyfleuster yng Nghymru i ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn. Er gwaetha'r ffaith bod ysbyty penodol ar gyfer plant yn cael ei adeiladu yng Nghaerdydd, nid oes darpariaeth o hyd wedi'i chynnwys yng nghynllun yr ysbyty hwnnw.

**Linc i'r ddeiseb:** http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-295.htm

**Cynigwyd gan:** Kyle's Goal

**Nifer y llofnodion:** Cynigwyd y ddeiseb gan Kyle's Goal. Casglwyd 9,128 o lofnodion gan ddeiseb gysylltiedig.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd gohebiaeth gan y cyn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.